OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2627 (Cy. 216 )

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) (Rhif 2) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *19 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â Pholisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) (Rhif 2) 2001; maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 20 Gorffennaf 2001.

### Diwygiadau

**2.** Rhoddir y dyddiad “23rd September 2001” yn lle'r dyddiad “23rd July 2001” yn y darpariaethau canlynol —

(a) paragraff 3A(3) o Ran VI o Atodlen 2 i Reoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994(**3**));

(b) rheoliad 7(7) a rheoliad 8(8) o Reoliadau Briwgig a Pharatoadau Cig (Hylendid) 1995(**4**) ); ac

(c) paragraff 3 o Ran I o Atodlen 13 i Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995(**5**).

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1994/3082. Ychwanegwyd paragraff 3A(3) o Ran VI o Atodlen 2 gan Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001, O.S. 2001/1508 (Cy.105).
(**4**) O.S. 1995/3205. Ychwanegwyd rheoliadau 7(7) ac 8(8) gan Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001, O.S 2001/1740 (Cy.123).
(**5**) O.S. 1995/539. Ychwanegwyd paragraff 3 o Ran I o Atodlen 13 gan Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001, O.S. 2001/1508 (Cy.105).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ar 19 Gorffennaf 2001

(**6**) 1998 p.38.

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Penderfyniad y Comisiwn 2001/304/EC a Phenderfyniad y Comisiwn 2001/345/EC yn caniatáu marciau deuol ar gig, briwgig, paratoadau cig a chynhyrchion cig am gyfnod trosiannol.

Yn achos cig, mae'r Penderfyniadau hyn wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru gan Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/1508) (Cy.105) sy'n diwygio Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995 (O.S. 1995/539).

Yn achos cynhyrchion cig, maent wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru gan Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001 sy'n diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994 (O.S. 1994/3082).

Yn achos briwgig a pharatoadau cig, mae'r Penderfyniadau wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru gan Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/1740) (Cy.123) sy'n diwygio Rheoliadau Briwgig a Pharatoadau Cig (Hylendid) 1995 (O.S. 1995/3205).

Ym mhob achos, mae'r cyfnod trosiannol yn dod i ben ar 23 Gorffennaf 2001. Nid yw'r dyddiad i'w weld ym Mhenderfyniadau'r Comisiwn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod trosiannol tan 23 Medi 2001.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.